



Cymwysterau ar gyfer y cwicwlwm newydd

A ydych chi wedi ymateb i'n hymgyngoriad ni eto?

Rydyn ni eisiau gwybod pa fath o gymwysterau fydd ein pobl ifanc 16 oed yn eu cymryd pan fydd y cwicwlwm newydd yn cael ei gyflwyno.

Mae mis wedi pasio ers inni ddechrau ein hymarfer ymgynghoriad [Cymwys ar gyfer y dyfodol](#), ble rydyn ni'n gofyn i bawb sy'n poeni am fuddiannau pobl ifanc i fynegi eu barn.

Mae'n arbennig o bwysig i'r rheiny ohonoch chi sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag addysg i drafod y syniadau rydyn ni wedi eu codi ac i ddweud wrthym ni a ydyn ni ar y trywydd iawn neu a oes angen newid cyfeiriad.

Mae'r holl fanylion ar ein gwefan, ble mae'r ddogfen ymgynghori lawn yn ogystal â fersiwn sy'n addas i bobl ifanc a fersiwn sy'n hawdd ei darllen a [sut i ymateb](#).

Cofiwch fod rhaid ymateb erbyn dydd Gwener, 7 Chwefror.

Mae ein Prif Weithredwr Philip Blaker wedi ysgrifennu blog newydd am ein hymgyngoriad *Cymwys ar gyfer yr dyfodol* lle dywed fod hyn yn rhoi cyfle inni i gyd feddwl yn wahanol am addysg.

Darllenwch ei farn [yma](#).

Negeseuon y Gweinidog ar gyfer swyddogion arholiadau



Mae'r Gweinidog Addysg, Kirsty Williams, wedi cytuno i ymddangos mewn dwy gynhadledd rydyn ni wedi'u trefnu ar gyfer swyddogion arholiad y mis nesaf. Yn ymuno â hi bydd cydweithwyr o'r sectorau cymwysterau ac addysg a fydd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn ymwneud â'r broses arholi.

Mae'r digwyddiad yng Ngwesty'r Village, Caerdydd ddydd Mawrth, 28 Ionawr yn llawn, er bod gennym restr wrth gefn os oes unrhyw un yn gadael. Mae lleoedd o hyd ar gael yng Nghanolfan Fusnes Conwy yng Nghonwy ddydd Mawrth, 21 Ionawr.

Bydd y Gweinidog yn ymddangos yn bersonol i annerch cynrychiolwyr yn y digwyddiad yng Nghaerdydd, ac yn anfon neges fideo i gynhadledd Gogledd Cymru. Bydd cyfle ichi rwydweithio â chyfoedion, cyrchu gwasanaethau ac ymgysylltu â chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, cyrff dyfarnu, JCQ a darparwyr gwasanaeth.

Cliciwch ar y dolenni i gael manylion ar sut i gofrestru ar gyfer [De Cymru](#) a [Gogledd Cymru](#).

Gweithio gyda Gyrfu Cymru

Rydyn ni'n parhau i weithio'n agos gyda Gyrfu Cymru ar sawl lefel, a'r ffordd ddiweddaraf yw cyfres o dair sesiwn briffio i bron 250 o swyddogion gyrfu ledled Cymru.

Cynhaliwyd y digwyddiadau hyn yn gynharach yn y mis a rhoddon nhw gyfle inni roi'r newyddion diweddaraf am ein blaenoriaethau presennol i'r swyddogion gyrfu. Roedd hyn yn cynnwys y newyddion diweddaraf am adolygu'r Dystysgrif Her Sgiliau yn ogystal ag eglurhad ynghylch modelau ac egwyddorion posibl ar gyfer cymwysterau yn y dyfodol o fewn Cwricwlwm Cymru.

Dysgon nhw hefyd am ddatblygiadau diweddaraf ein hadolygiadau sector o amrywiaeth o gymwysterau galwedigaethol, gan gynnwys rhai'r gwasanaethau adeiladu, iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant.

Byddwn ni'n parhau i ddatblygu ein perthynas gyda Gyrfu Cymru er mwyn sicrhau eu bod yn cael y newyddion diweddaraf am unrhyw newidiadau i gymwysterau.

Rhannu Sgiliau yn ystod nosweithiau dewisiadau



Gyda nosweithiau dewisiadau Blwyddyn 9 i fod i gael eu cynnal yn y Flwyddyn Newydd, dyma ein hatgoffa bod pob ysgol wedi derbyn pecyn gwybodaeth gennym yn egluro Bagloriaeth Cymru gyda ffocws ar ei Thystysgrif Her Sgiliau.

Mae'r pecyn yn cynnwys fideo y gallwch ei rannu gyda'r nosau rhieni, ynghyd â chardiau post a phosteri y gellir eu lawrlwytho.

Mae manylion ar ein [gwefan](#), ond os byddai'n well gennych dderbyn pecyn gennym ni, cysylltwch â comms@qualificationswales.org

Sut aeth arholiadau'r haf?

Byddwn ni'n cyhoeddi ein trosolwg o arholiadau haf 2019 yn gynnar ym mis Ionawr, gyda manylion llawn ynghylch sut y gwnaethon ni fonitro'r gyfres a pha gamau y gwnaethon ni eu cymryd i ddiogelu dysgwyr a chynnal safonau.

Bydd yr adroddiad ar gael ar ein gwefan o 13 Ionawr.

Gan ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd

To subscribe to our mailing list for the Slate, please click [here](#).

I danysgrifio i'n rhestr bost ar gyfer Y Llechen, cliciwch [yma](#).

Y Llechen: cylchlythyr Cymwysterau Cymru i'r sector addysg The Slate: Qualifications Wales's monthly newsletter for the education sector

Gallwch chi ein dilyn ar gyfryngau cymdeithasol i weld y newyddion diweddaraf am ein gwaith:
You can follow us on social media for the latest news on our work:



Copyright © 2019 Qualifications Wales All rights reserved.

Contact us:

comms@qualificationswales.org

Click [here](#) to unsubscribe or to change your Subscription Preferences.